| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **20 Ionawr 2014** |
| **TEITL** | **Staffio'r Uned Bensiynau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Ystyried adio i adnoddau staffio'r Uned Gweinyddu Pensiynau.** |
| **AWDUR** | **Dafydd L. Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo'r adroddiad** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Er mwyn i Uned Weinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal, gwella a datblygu lefel briodol o wasanaeth i'w holl aelodau, (cyflogwyr, gweithwyr a phensiynwyr), sy'n cydymffurfio â'r holl ymrwymiadau a'r rheoliadau statudol perthnasol, mae'n hanfodol y darperir adnoddau staffio digonol.

1.2. Cynhaliwyd yr adolygiad staffio diwethaf ym mis Gorffennaf 2006, cyn i'r cynllun 2008 presennol ddod i fodolaeth. Bellach darperir buddion ar sail dau raddfa cronni, sef 80fed a 60fed o gyflog terfynnol, gyda'r dewis i drawsnewid pensiwn am lwfans ymddeol o fewn terfynau arbennig rheoliadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi.

## 2. CYNNYDD ERS 2008

2.1 Ar 14eg o Hydref 2010 cyhoeddodd y llywodraeth ostyngiadau llym ar lwfansau cronni buddion pensiwn o 2011-12 a oedd yn golygu bod lwfans einoes yn lleihau o £1.8m i £1.5m a'r lwfans blynyddol o £255,000 i £50,000. I ddilyn hyn cyhoeddodd y Canghellor yn ei Ddatganiad yr Hydref 2012 leihad pellach yn y lwfansau i £1.25m a £40,000 y flwyddyn yn ôl eu trefn i ddechrau o 2014-15.

2.2 Yn ystod y flwyddyn galendr 2013 dechreuodd gyflogwyr y gronfa gyrraedd eu dyddiadau llwyfannu o dan ddeddfwriaeth cofrestru automatig (auto enrolment). Golygir bod y cyflogwyr hynny i ddod a phob bob 'daliwr swydd cymwys' newydd i mewn i gynllun pensiwn cymwys, sef y CPLlL yn yr achos yma. Bydd rhaid i unigolion sydd ddim am gyfrannu wneud hynny wedi iddynt ymaelodi drwy gysylltu â'r uned bensiynau, ac nid y cyflogwr.

2.3 O Ebrill 2014 bydd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (SI 2013 Rhif 2356) yn dod yn weithredol ac yn cyflwyno Cynllun Cyfartaledd Enillion Adbrisiedig i gymryd lle'r cynllun cyflog terfynol. Bydd rhaid gwarchod hawliau wedi'u cronni yr hen gynllun hyd at 31 Mawrth 2014 a'u cysylltu â chyflog pensiynadwy'r unigolion wrth adael y cynllun.

Deleted: a

## 3. GOBLYGIADAU'R NEWIDIADAU AR LWYTH GWAITH

3.1 Fel y crybwyllwyd uchod mae pob agwedd o'r newidiadau hyn wedi ac am gynyddu'r gwaith gweinyddol i gynnwys:

Deleted: c

- Bydd rhaid darparu manylion blynyddol i aelodau ar werth y croniad mewn budd pensiwn, a'i gynnwys yn y datganiad buddion blynyddol, i'r aelod ei fesur yn erbyn y lwfans blynyddol.

Deleted: cynnydd mewn

- Bydd rhaid i staff yr uned ddelio ag, a chael gwybodaeth drwyadl, ar dri chynllun pensiwn, sef y cynllun hyd at 2008, y cynllun rhwng 2008 a 2014, a'r cynllun 2014. Ar sail bod dehongliad cyflog pensiynadwy yn y cynllun 2014 yn wahanol i beth sydd yn gyfredol yn y cynllun presennol mae'n golygu gwaith gweinyddol sylweddol ychwanegol er mwyn darparu gwerthoedd buddion ar gyfer datganiadau blynyddol a phob enghraifft o adael y cynllun gyda buddion.

Deleted: ddau g

Deleted: cyntaf (uchod)

Deleted: agwedd

- Mae cofrestru awtomatig yn golygu creu a phrosesu cofnodau aelodau fydd yn ymddangos fel 'ymadawyr' o'r cynllun yn syth.

3.2 Ein bwriad fel uned yw parhau i gynnal clinigau pensiwn a seminarau, ond bellach, oherwydd yr holl gymhlethdodau, mae hyn yn ei hun yn creu mwy o ymholiadau a cheisiadau am eglurhad ac amcangyfrifon.

3.3 Yn yr hinsawdd ariannol presennol a'i effaith ar wariant cyhoeddus mae cynnydd mawr yn y ceisiadau am amcangyfrifon gan gyflogwyr. Yn ogystal maent yn edrych mwyfwy ar allanoli gwasanaethau sydd yn ei hun yn gosod pwysau ar yr uned i ddarparu manylion a chostau pensiwn y gweithlu ynghlwm a'r gwasanaethau perthnasol.

Deleted: sydd ohoni

## 4. ARGYMHELLIAD:

4.1 Cynigir felly i greu swydd newydd Cymhorthydd Pensiynau, ar raddfa GS5, pwyntiau cyflog 14 (£15,882)– 17 (£16,998), yn ddarostyngedig i adolygiad a chadarnhad gan Adnoddau Dynol, i ymuno a thim yr uned ac i gynorthwyo'r rheng flaen gweinyddol yn unol a swydd ddisgrifiad generig yr uned.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r argymhelliad